

Nodiadau Cyfarwyddyd

Trwyddedu Gorfodol

Daeth Deddf Tai 2004 i rym yng Nghymru ar 30 Mehefin 2006. Mae Rhan 2 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Dai Amlfeddiannaeth sy'n cynnwys:

- 3 llawr neu fwy
- ac yn cael ei breswyllo gan 5 neu fwy o bobl sy'n gyfystyr â mwy na 2 aelwyd
- lle gallent fod yn rhannu cyfleusterau ond nid o reidrwydd

yn ddarostyngedig i ofynion trwyddedu gorfodol.

Enw'r cynllun hwn yw **Cyfundrefn (Trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth) Cyngor Sir Dinbych 2006**.

Trwyddedu Ychwanegol

Mae Adran 56 Deddf Tai 2004 yn caniatáu i Awdurdod Tai Lleol ddynodi ardaloedd fel rhai sy'n destun **Trwyddedu Ychwanegol**, a thrwy hynny ganiatáu iddynt ddelio â'r eiddo hynny na ellid delio â nhw o dan y Cynllun Gorfodol.

Mae trwyddedu ychwanegol wedi'i ddynodi ledled y sir gan Gyngor Sir Ddinbych. Gwnaed y dynodiad hwn ar 21 Hydref 2025.

Bydd y cynllun hwn yn cael ei adnabod fel **Cynllun Trwyddedu Ychwanegol (Tai Amlfeddiannaeth) Cyngor Sir Dinbych 2025**. Mae'r dynodiad yn cydymffurfio â Rheoliadau Trwyddedu a Rheoli Tai Amlfeddiannaeth a Thai Eraill (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2006.

Mae gan y cynllun y mae'r dynodiad yn berthnasol iddo Gymeradwyaeth Gyffredinol Llywodraeth Cymru o dan Ddeddf Tai 2004 (Cynllun Trwyddedu Ychwanegol Tai Amlfeddiannaeth) (Cymru) - Cymeradwyaeth Gyffredinol 2007, a ddaeth i rym ar 13 Mawrth 2007. Felly, yn rhinwedd isadrannau (1) (b) a (7) Adran 58, nid oes angen cadarnhau'r dynodiad a bydd yn dod i rym ar ddyddiad a nodir yn y Dynodiad.

Bydd y Cynllun yn gweithio ar y cyd â'r Gyfundrefn Drwyddedu Orfodol ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth y cyfeirir ati uchod. Bydd y Cynllun yn dod i rym ar **1 Ebrill 2026** ac os na chaiff ei ddirymu neu ei ymestyn cyn hynny, bydd yn dod i ben ar **31 Mawrth 2031**.

Bydd y Cynllun hwn yn cael ei gymhwyso ar hyd a lled y sir a bydd yn cynnwys eiddo sy'n bodloni'r holl feini prawf, o fewn un o'r ddau gategori canlynol:

- unrhyw fath o dŷ amlfeddiannaeth fel y'i diffinnir yn Adran 254 o Ddeddf Tai 2004 nad yw'n dod o fewn y cynllun trwyddedu gorfodol, sydd â thri neu fwy o bobl yn byw ynddo sy'n ffurfio dwy o aelwydydd neu fwy
- Tai Amlfeddiannaeth a ddiffinnir dan Adran 257 o'r Ddeddf Tai; Tai Amlfeddiannaeth a grëwyd drwy drosi adeiladau yn fflatiau, ond nad ydynt yn bodloni Rheoliadau Adeiladu 1991, ac felly heb eu gwella i fodloni'r safonau perthnasol.

Ni fydd y Cynllun yn berthnasol i'r eiddo hynny sydd wedi'u heithrio gan adrannau perthnasol y Ddeddf a'r rhai sydd eisoes wedi'u trwyddedu o dan y Cynllun Trwyddedu Gorfodol ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth.

Person Addas a Phriodol

Rhaid i ddeiliad arfaethedig y drwydded ac unrhyw un arall sy'n ymwneud â rheoli'r tŷ fod yn bersonau addas a phriodol o fewn diffiniad Adran 66 Deddf Tai 2004.

Rhaid i ddeiliad y drwydded hefyd fodloni'r Awdurdod bod strwythur rheoli priodol yn bodoli o ran cymhwysedd rheoli a chyllid ar gyfer gweithrediad effeithiol y tŷ.

Diogelwch Tân

O dan Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 rhaid i'r unigolyn cyfrifol (deiliad y drwydded) sicrhau bod asesiad risg tân yn cael ei gynnal gan berson cymwys, gan wneud cofnod ysgrifenedig o'r canfyddiadau arwyddocaol. Bydd gofyn i ddeiliad y drwydded gyflwyno ei asesiad risg i'r Adran **Gwarchod y Cyhoedd (Trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth)** pan ofynnir amdano.

Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Bydd gofyn i ddeiliad y drwydded fodloni'r awdurdod bod gweithdrefnau rhesymol ar waith i ddellio â phroblemau ymddygiad gwrthgymdeithasol a all ddigwydd o fewn y safle, a'u lleihau. Disgwylir i ddeiliad y drwydded gymhwyso'r gweithdrefnau a rheoli'r materion hyn yn effeithiol.

Cyflwyno eich cais – Beth sy'n digwydd nesaf

Gwiriwch y ffurflen gais i sicrhau bod yr holl adrannau perthnasol wedi'u cwblhau a bod yr holl ddogfennaeth a restrir yn rhestr wirio Rhan 1 (os yn berthnasol) wedi'i hamgáu, gan gynnwys y ffi drwyddedu ofynnol. (Rhaid cael cais llawn er mwyn bod yn gymwys am ddisgownt)

Ar ôl cyflwyno eich cais am drwydded wedi'i gwblhau'n llawn, rydym yn anelu at roi gwybod i chi am ein penderfyniad mewn perthynas â'ch cais o fewn 6 wythnos ar ôl derbyn eich cais. Rhaid i'r awdurdod gyflwyno hysbysiad i chi yn nodi ein penderfyniad arfaethedig yn nodi unrhyw Amodau sydd ynghlwm wrth y drwydded. Byddwch yn cael cyfle i wneud sylwadau ynghylch y penderfyniad hwnnw.

Rhoddir cyfle pellach i wneud sylwadau pan fydd yr awdurdod yn cyflwyno'r penderfyniad ynghylch rhoi trwydded ag unrhyw amodau sydd ynghlwm iddi.

Sut fydd trwyddedu'n gweithio?

Mae'n rhaid i'r Awdurdod roi trwydded os yw'n argyhoeddedig:

- Bod y tŷ amlfeddiannaeth yn rhesymol o addas i bobl fyw ynddi yn y nifer a ganiateir dan y drwydded
- Bod darpar ddeiliad y drwydded yn unigolyn addas a phriodol a'r unigolyn mwyaf priodol i ddal y drwydded
- Bod y rheolwr arfaethedig, os oes un, yn unigolyn cymwys ac addas i fod yn rheolwr
- Bod y trefniadau rheoli'n foddhaol
- Bod y strwythur ariannol ar gyfer y gwaith rheoli yn addas

Beth sydd mewn trwydded?

Bydd y drwydded yn destun amodau sy'n gysylltiedig â'i rheolaeth, y defnydd ohoni, ei meddiannaeth, ei chynnwys ac amod.

- Bydd y drwydded yn nodi'r nifer uchaf o bobl a all fyw yn y Tŷ Amlfeddiannaeth

Bydd hefyd yn cynnwys yr amodau canlynol, sy'n berthnasol i bob trwydded:

- Rhaid darparu tystysgrif diogelwch nwy gyfredol a dilys a gaiff ei hadnewyddu'n flynyddol.
- Prawf y cedwir yr holl offer trydanol a dodrefn mewn cyflwr diogel.
- Prawf bod yr holl larymau mwg wedi'u gosod yn y mannau cywir.
- Rhaid i bob preswylwr gael datganiad ysgrifenedig o'r telerau y maent yn byw yn yr eiddo oddi tanynt; er enghraifft, contract meddiannaeth.

Gall Cyngor Sir Ddinbych hefyd ddefnyddio'r amodau canlynol:

- Gellir cyfyngu ar y rhannau o'r Tŷ Amlfeddiannaeth y caiff preswylwyr eu defnyddio neu'u gwahardd o'r rhannau hynny.
- Gofyniad bod cyflwr yr eiddo, ei gynnwys, megis dodrefn a'r holl gyfleusterau ac amwynderau, ystafell ymolchi a thoiledau, er enghraifft, mewn cyflwr da.
- Gofyniad ar gyfer gwaith neu atgyweiriadau penodedig i gael eu gwneud o fewn amserlen benodol, bydd angen i'r rhain gael eu gwneud fel yr amlinellir yn eich trwydded

Cyfeiriwch at **Amodau Trwyddedu (Isafswm Safonau Trwyddedu ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth)** am fanylion llawn eich gofynion. Fel rhan o'ch trwydded, efallai y bydd gofyn i chi gyflawni gwaith er mwyn cydymffurfio â'r amodau trwyddedu.

Am faint o amser fydd hyn yn para?

Bydd trwydded yn ddilys am uchafswm o **5 mlynedd***, bydd yn ymwneud ag **un Tŷ Amlfeddiannaeth yn unig** ac **ni fydd yn drosglwyddadwy**. Os caiff yr eiddo ei werthu neu ei drosglwyddo i berson arall, bydd angen llenwi ffurflen gais drwyddedu newydd. Efallai y rhoddir trwyddedau am lai na 5 mlynedd os codir pryderon ynghylch rheoli gwael, diffyg cydymffurfio cyson â gwaith sy'n ofynnol neu bryderon am berson addas a phriodol.

* Pan fo Tŷ Amlfeddiannaeth yn cael ei weithredu heb y caniatâd cynllunio gofynnol, dim ond am **1 flwyddyn** y byddwn yn rhoi'r drwydded Tai Amlfeddiannaeth yn hytrach nag am 5.

Arolygiadau Trwyddedu

Bydd yr awdurdod hefyd yn cynnal archwiliadau o dai i ddilysu cynnwys ffurflenni cais wedi'u cwblhau ac i gadarnhau bod amodau'r drwydded yn cael eu cynnal yn ystod cyfnod y drwydded.

Alla i newid fy nhrwydded unwaith y bydd wedi'i rhoi?

Gallwch, os yw deiliad trwydded yn dymuno newid telerau eu trwydded, gallant wneud cais am **amrywiad** i'r drwydded drwy wneud cais ysgrifenedig i 'Gwarchod y Cyhoedd (Trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth).

A oes modd apelio?

Gallwch apelio os yw'r cyngor yn penderfynu:

- Gwrthod trwydded.
- Rhoi trwydded gydag amodau.
- Dirymu trwydded.
- Amrywio trwydded.
- Gwrthod amrywio trwydded.

Rhaid i chi apelio i'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl, fel arfer o fewn **28 diwrnod**. Rhaid i chi gynnwys ffi o £155 gyda'ch cais.

Cyfeiriad cyswllt y Tribiwnlys Eiddo Preswyl yw:

Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru, Oak House, Cleppa Park, Celtic Springs, Casnewydd, NP10 8BD.

Rhif ffôn - 03000 252 777. E-bost - rpt@llyw.cymru.

Rheoliadau Cynllunio ac Adeiladu

Yn unol â pholisïau'r Awdurdod Lleol, sicrhewch eich bod yn gofyn am y gymeradwyaeth Cynllunio a/ neu'r Rheoliadau Adeiladu angenrheidiol cyn i chi wneud unrhyw waith neu newid defnydd o'r eiddo. Fe'ch cynghorir hefyd i geisio eglurhad oddi wrth yr Adran Gynllunio, er mwyn sicrhau bod y gymeradwyaeth cynllunio ofynnol gan yr eiddo.

System Graddio Iechyd a Diogelwch Tai

Mae'n ofynnol hefyd i'r Awdurdod Lleol fynd i'r afael â materion iechyd a diogelwch yn y tŷ drwy swyddogaethau Rhan 1 o Ddeddf Tai 2004. Mae hyn yn cynnwys archwiliad gan Swyddogion Diogelu'r Cyhoedd yn unol â'r **System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai**. Gellir cynnal yr archwiliad ar unrhyw adeg o fewn y cyfnod o 5 mlynedd ar ôl derbyn y cais am drwydded. Efallai y bydd gofyn i chi wneud gwaith i gydymffurfio â'r safonau iechyd a diogelwch hyn.

Hysbysiad Eithrio Dros Dro

Os mai eich bwriad yw cymryd camau penodol i sicrhau nad oes bellach angen i'r tŷ gael ei drwyddedu, efallai y gallwch wneud cais am Hysbysiad Eithrio Dros Dro. Er mwyn gwneud cais am Hysbysiad Eithrio Dros Dro, rhaid i chi roi gwybod i'r awdurdod drwy ddarparu manylion am y mesurau arfaethedig i'w cymryd, i sicrhau bod y tŷ wedi'i eithrio rhag trwyddedu.

Os caiff ei ganiatáu, bydd Hysbysiad Eithrio Dros Dro yn negyddu'r gofyniad i drwyddedu'r tŷ yn ystod y cyfnod bydd yr Hysbysiad yn weithredol.

Mae Hysbysiad Eithrio Dros Dro yn weithredol am gyfnod o 3 mis gan ddechrau ar y dyddiad cyflwyno. Os yw'r Awdurdod yn derbyn hysbysiad pellach, ac yn ystyried bod yna amgylchiadau eithriadol sy'n cyfiawnhau cyflwyno ail Hysbysiad Eithrio Dros Dro mewn perthynas â'r tŷ, byddai hyn yn dod i rym ar ddiwedd y cyfnod o 3 mis o wneud cais am yr Hysbysiad cyntaf. Ni ellir cyflwyno unrhyw Hysbysiad pellach ar ôl i'r ail Hysbysiad Eithrio Dros Dro ddod i ben.

Os nad yw'r Awdurdod Lleol yn penderfynu cyflwyno Hysbysiad Eithrio Dros Dro mewn ymateb i hysbysiad, rhaid iddynt roi gwybod i'r ymgeisydd am:

- a) Y penderfyniad
- b) Y rhesymau drosto a'r dyddiad y cafodd ei wneud
- c) Yr hawl i apelio
- d) Y cyfnod y gellir gwneud apêl

Cosbau Trwyddedu

Cyfyngiad ar Derfynu Contractau Meddiannaeth

Mewn perthynas â chontractwyr meddiannaeth, mae landlord y mae'n ofynnol iddo gael trwydded mewn perthynas â Thŷ Amlfeddiannaeth, ond nad oes ganddo drwydded, yn colli'r hawl i feddiant awtomatig (Ni chaniateir rhoi hysbysiad adran 173, hysbysiad adran 186, hysbysiad paragraff 25B Atodlen 12 na hysbysiad adran 194 mewn perthynas â chontract safonol rhan o Dŷ Amlfeddiannaeth heb drwydded, cyn belled â'i fod yn parhau i fod yn Dŷ Amlfeddiannaeth o'r fath).

Dirwyon

Bydd methu â gwneud cais am drwydded ar gyfer tŷ trwyddedadwy yn drosedd, ac ar gollfarn ddiannod yn agored i ddirwy ddiderfyn.

Rhaid i'r tŷ fod yn rhesymol addas i'w feddiannu gan uchafswm penodol o aelwydydd neu bobl. Bydd yn drosedd, ac ar gollfarn ddiannod yn agored i ddirwy ddiderfyn, i gynyddu lefel preswyliaeth tŷ i fwy na'r hyn a nodwyd yn y drwydded.

Gall torri unrhyw un o amodau'r drwydded arwain at ddirwyon diderfyn fel y nodir yn Neddf Tai 2004. Gall rhoi gwybodaeth ffug neu gamarweiniol arwain at ddirwyon diderfyn fel y nodir yn Neddf Tai 2004.

.

Gorchmynion Rheoli

Os yw landlord yn methu â dod â Thŷ Amlfeddiannaeth i fyny i'r safon ofynnol, neu'n methu â bodloni'r meini prawf person addas a phriodol, gall y cyngor gyflwyno **Gorchmyn Rheoli Dros Dro (IMO)**, sy'n ei alluogi i gamu i reoli'r eiddo dros dro. Mae'r perchennog yn cadw ei hawliau fel perchennog. Gall y gorchmyn hwn bara am flwyddyn nes y gellir gwneud trefniadau rheoli parhaol addas. Os bydd y Gorchmyn Rheoli Dros Dro yn dod i ben ac nad oes unrhyw welliant wedi bod, yna gall y cyngor gyhoeddi **Gorchmyn Rheoli Terfynol**. Gall hwn bara hyd at bum mlynedd a gellir ei adnewyddu.

Gorchmynion Ad-dalu Rhent

Gallai Landlord sy'n cael rhent wrth weithredu eiddo heb drwydded fod yn agored i gosb sy'n cyfateb i unrhyw rent a gafwyd yn ystod cyfnod y drosedd hyd at uchafswm o 12 mis. Mae gan y Tribiwnlys Eiddo Preswyl y pŵer i wneud "gorchmyn ad-dalu rhent" lle mae'n penderfynu bod trosedd wedi'i gyflawni. Mae gan yr awdurdod hefyd hawl i wneud cais i'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl am orchymyn ad-dalu rhent mewn perthynas â budd-dal tai a dalwyd yn ystod y cyfnod lle cyflawnwyd trosedd, p'un a fu erlyniad ai peidio.

Gwybodaeth Bellach

Os ydych angen mwy o wybodaeth am drwyddedu, neu os ydych yn ansicr a oes angen trwyddedu eich eiddo, cysylltwch â:

Gwarchod y Cyhoedd (Trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth)

Cyngor Sir Ddinbych,

Blwch Post 62

Rhuthun

LL15 9AZ

Rhif Ffôn: 01824 706389

Ebost: envhealth@denbighshire.gov.uk

Gwefan: www.sirdinbych.gov.uk

<https://www.denbighshire.gov.uk/cy/trwyddedau-hawlenni-a-safonau-masnach/tai-amlfeddiannaeth.aspx>

Mae'r daflen wybodaeth hon ar gael hefyd yn Saesneg, am gopi cysylltwch â ni/ This guide is also available in English, please contact us if you need a copy.

Darperir y nodiadau hyn at ddibenion gwybodaeth gyffredinol yn unig. Dylai pob perchennog, landlord neu asiant eiddo ofyn am gyngor gan yr Awdurdod Lleol ynghylch Trwyddedu Tai Amlbreswyliaeth. Fodd bynnag lle mae ymgeiswyr yn gofyn am eglurhad ynghylch dehongliad o gynnwys cyfreithiol y ffurflen gais hon, dylent geisio cyngor cyfreithiol proffesiynol.

Mae'r Rhan hon yn esbonio rhai o'r termau a ddefnyddir yn y ffurflen gais, mae hefyd yn rhoi arweiniad cyffredinol, cyfeiriwch at hwn wrth lenwi'r ffurflen:

Unigolyn sy'n rhwym gan amod o drwydded	Gallai fod yn unrhyw berson sy'n ymwneud â rheoli/ a/neu gynnal a chadw'r eiddo. Bydd hyn hefyd yn dibynnu ar amodau'r drwydded.
Asiant	Rhywun a benodir gan y landlord i gyflawni rhai neu'r holl ddyletswyddau ar ran y landlord. Gallai hwn fod yn rheolwr eiddo proffesiynol, cyswllt neu berthynas i'r landlord. Gallai'r landlord fod yn talu'r asiant, neu ddim.
Cymeradwyaeth Rheoliadau Adeiladu	Mae'n golygu dogfen a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod Lleol, yn dilyn cyflwyno cynlluniau a/neu fanylebau, sy'n dangos bod unrhyw waith sydd i'w wneud yn yr eiddo ac sydd angen Cymeradwyaeth Rheoliadau Adeiladu wedi cael ei asesu gan yr Awdurdod Lleol a'i fod wedi rhoi cymeradwyaeth i'r gwaith symud ymlaen.
Tystysgrif Cwblhau Rheoliadau Adeiladu	Mae'n golygu tystysgrif a roddir gan yr Awdurdod Lleol sy'n dangos bod gwaith adeiladu penodol a wnaed yn yr adeilad wedi ei gwblhau i safon a oedd yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu oedd mewn grym ar yr adeg cafodd y gwaith ei wneud.
Adroddiad Cyflwr Gosod Trydanol	Mae'n golygu tystysgrif wedi'i llenwi a'i llofnodi gan berson cymwys yn dynodi cyflwr y gosodiadau trydan, offer switsio trydanol ac ategolion a phob cyfarpar trydanol sefydlog a symudol a ddarperir gan y landlord. Mae cyfarpar a ddarperir gan y landlord yn cynnwys unrhyw gyfarpar a gafodd ei adael gan denantiaid blaenorol ac nid yw'r landlord wedi eu tynnu allan.
Unigolyn Cymwys ac Addas	Wrth benderfynu a yw rhywun yn addas a phriodol, rhaid i'r cyngor gymryd i ystyriaeth: • Unrhyw gollfarnau blaenorol yn ymwneud â thrais, troseddau rhywiol, cyffuriau a thwyll. • A yw'r deiliad trwydded arfaethedig wedi torri unrhyw gyfreithiau sy'n ymwneud â thai neu faterion landlordiaid a thenantiaid. • A yw'r person wedi'i gael yn euog o wahaniaethu anghyfreithlon. • A yw'r person wedi rheoli Tai Amlfeddiannaeth o'r blaen sydd wedi torri unrhyw god ymarfer cymeradwy.
Rhydd-ddeiliad	Yn golygu yr un fath â pherchennog h.y. y person sydd â hawl i werthu'r eiddo.

Cofrestr Diogelwch Nwy - Gas Safe Register	Gas Safe Register yw'r dilysnod ar gyfer diogelwch nwy. Maent yn rheoli'r gofrestr o beirianwyr nwy sydd â'r cymwysterau priodol i weithio gyda nwy ym Mhrydain Fawr ac Ynys Manaw. Er mwyn cyflawni gwaith ar osodiadau ac offer nwy yn ddiogel ac yn gyfreithlon, rhaid i beirianwyr nwy fod ar y Gofrestr Diogelwch Nwy.
Ystafell gyfanheddol	Yn golygu ystafelloedd y gellir eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau bob dydd. Byddai ystafelloedd o'r fath yn cynnwys yr holl lety byw a llety cysgu ond byddent yn eithrio ceginau, ystafelloedd ymolchi, ystafelloedd haul, portshys ac ati, ac isloriau heb eu trosi.
Aelwyd	• Unigolion sy'n briod â'i gilydd neu'n byw fel gŵr a gwraig (neu mewn perthynas gyfatebol yn achos pobl o'r un rhyw) • Perthnasau sy'n byw gyda'i gilydd, gan gynnwys rhieni, neiniau a theidiau, plant, (a llysblant), wyrion, brodyr, chwiorydd, ewythrod, modrybedd, neiaint, nithoedd neu gefndryd • Bydd hanner-berthnasau yn cael eu trin fel perthnasau llawn. Mae plentyn maeth sy'n byw gyda'i riant maeth yn cael ei drin fel bod yn byw yn yr un aelwyd a'i riant maeth. • Mae staff domestig wedi'u cynnwys yn y cartref os ydynt yn byw heb rent yn y llety a ddarperir gan yr unigolyn y maent yn gweithio iddo. Felly, ystyrir bod tri ffrind nad ydynt yn perthyn ac sy'n rhannu llety byw yn dair aelwyd ar wahân. Byddai cwpl yn rhannu gyda thrydydd person nad yw'n perthyn iddynt yn gyfystyr â dwy aelwyd. Mae teulu sy'n rhentu eiddo yn un aelwyd. Pe bai gan y teulu hwnnw au pair i ofalu am eu plant, byddai'r unigolyn hwnnw'n cael ei gynnwys yn eu haelwydydd.
A yw eiddo deulawr uwchben adeiladau busnes yn cael ei ddiffinio fel Tŷ Amlfeddiannaeth?	Ydy, lle mae llety byw wedi'i leoli mewn rhan o adeilad uwchben neu islaw safle busnes, caiff pob llawr o'r safle busnes ei gyfrif fel llawr .
Landlord	Yn golygu'r person sydd â'r hawl gyfreithiol i osod a therfynu contractau meddiannaeth yn y tŷ. Gallai hyn fod yn rhinwedd bod yn rhydd-ddeiliad , bod yn lesddeiliad â hawliau i osod, neu o ganlyniad i ryw fath o gytundeb gyda'r rhydd-ddeiliad . Os nad oes rheolwr wedi ei benodi yna y landlord hefyd fydd y rheolwr .

Cofnod Diogelwch Nwy Landlord	Mae'n golygu llenwi a llofnodi ffurflen gan berson cymwys a medrus priodol sy'n nodi cyflwr ac addasrwydd y gosodiad ac offer nwy. Rhaid i'r adroddiad gwmpasu'r holl offer nwy gan gynnwys y gofynion awyru angenrheidiol. Mae'r tystysgrifau hyn bellach yn cael eu cyhoeddi o dan faner Gas Safe Register. I ddod o hyd i osodwr cofrestredig ewch i: www.gassaferegister.co.uk neu ffoniwch 0800 408 5500
Deiliad y Drwydded	Yn golygu'r unigolyn sydd â hawl i wneud cais am, neu wedi cael, trwydded mewn perthynas â'r Tŷ Amlfeddiannaeth. Mae angen i ddeiliad y drwydded fod yr unigolyn a all awdurdodi, trefnu a thalu am atgyweiriadau hanfodol. Rhaid iddynt hefyd fod ar gael yn rhesymol i ddeiliaid contract gysylltu â nhw rhag ofn y bydd problemau a allai godi mewn perthynas â'r eiddo, a rhaid iddynt fod â'r modd i'w datrys. Yn aml, y landlord fydd deiliad arfaethedig y drwydded neu gallai fod yn rheolwr y telir y rhent iddo ac sydd wedi'i awdurdodi gan y perchennog i reoli'r eiddo yn effeithiol. Fel arfer, dyma'r unigolyn sy'n rheoli'r eiddo. Gall deiliad trwydded arfaethedig benodi asiant i reoli'r eiddo a dal y drwydded os nad ydynt yn cael eu hystyried i fod yn berson addas a phriodol. Dylai'r deiliad trwydded hwn hefyd gael yr awdurdod i awdurdodi a thalu am waith neu atgyweiriadau, gan y bydd yn atebol am unrhyw achos o dorri amodau'r drwydded. Rhaid i sefydliadau sy'n landlordiaid enwebu unigolyn priodol i fod yn ddeiliad y drwydded. Yr unigolyn hwn fydd yn gyfrifol am sicrhau nad oes unrhyw achos o dorri amodau'r drwydded.
Rheolwr	Mae'n golygu person, neu gwmni a benodir gan y landlord yn benodol at ddiben rheoli'r tŷ. Gallai'r rheolwr fod yn weithiwr i'r landlord. Os nad oes rheolwr ar wahân wedi ei benodi yna y landlord hefyd fydd y rheolwr. Bydd y rheolwr yn gweithredu o dan gyfarwyddiadau'r landlord a bydd ganddo bwerau a dyletswyddau a roddir iddo gan y landlord. Rhaid i'r rheolwr feddu ar y pwerau canlynol o leiaf: • gosod i ddeiliaid contract a therfynu contractau meddiannaeth yn unol â'r gyfraith; • mynd i bob rhan o'r safle i'r un graddau â'r landlord; ac • yr awdurdod i gymeradwyo gwariant rhesymol angenrheidiol ar gyfer gwaith atgyweirio ac ati (sylwer nad oes disgwyl i'r rheolwr i awdurdodi gwariant o'r fath, ond bod yr awdurdod ganddynt i wneud hynny os oes angen rhesymol) Rhaid i'r rheolwr allu teithio i'r eiddo o fewn amser rhesymol oni bai bod trefniadau ar waith i ymdrin â phob digwyddiad a allai fel arall fynnu ei bresenoldeb.

Ddim hunangynhwysol yn	Rhai cyfleusterau a rennir, er enghraifft, cegin/lolfa ar wahân, ystafell wely ar wahân a chyfleusterau ystafell ymolchi a rennir neu ystafelloedd nad ydynt y tu ôl i un drws caeedig.
Perchennog	Yn golygu'r person sydd â hawl i werthu'r eiddo.
Unigolyn	Yn cynnwys pobl o bob oedran, gan gynnwys plant newydd-anedig.
Caniatâd Cynllunio	Yn golygu dogfen a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod Lleol sy'n dynodi, yn dilyn cyflwyno cynlluniau a/neu fanylebau a/neu wybodaeth bod yr adeilad yn cydymffurfio neu y bydd yn cydymffurfio â meini prawf cynllunio perthnasol.
Rhentu Doeth Cymru	Mae Rhentu Doeth Cymru yn prosesu cofrestrau landlordiaid ac yn rhoi trwyddedau i landlordiaid ac asiantau sydd angen cydymffurfio â Deddf Tai (Cymru) 2014. Er mwyn gwneud cais am Drwydded Tai Amlfeddiannaeth rhaid i chi fod wedi'ch cofrestru, ac os yw'n berthnasol, wedi'ch trwyddedu o dan y Cynllun Rhentu Doeth. Mae rhagor o wybodaeth am Rhentu Doeth ar gael yn www.rhentudoeth.llyw.cymru
Fflat Hunangynhwysol	Fflat sy'n cynnwys yr holl ystafelloedd fel ystafelloedd gwely / lolfa / cegin / ystafell ymolchi ac ati i gyd wedi'u lleoli y tu ôl i un drws caeedig.
Euogfarnau wedi darfod	O dan Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974, mae euogfarnau neu rybuddion cymwys yn 'darfod' ar ôl cyfnod penodol o amser, a gelwir hyn yn 'gyfnod adsefydlu'. Bydd euogfarn yn darfod ar ôl cyfnod penodol o amser, sy'n newid yn dibynnu ar y ddeddfryd ac oedran yr unigolyn ar adeg yr euogfarn. Mae'r cyfnodau'n cael eu haneru os digwyddodd y gollfarn pan oedd yr unigolyn yn 17 oed neu'n iau. Os oes gennych unrhyw amheuan a oes yn rhaid i chi ddatgan collfarn flaenorol, dylech gysylltu â'ch Swyddfa Brawf leol, Canolfan Cyngor ar Bopeth neu gyfreithiwr.
Lloriau	Mae atigau, addasiadau atig, isloriau a lloriau mesanîn yn cyfrif fel lloriau os cânt eu defnyddio fel llety byw h.y. ystafelloedd byw ac ystafelloedd gwely, neu os cânt eu defnyddio mewn cysylltiad â'r Tŷ Amlfeddiannaeth, h.y. cegin, ystafell ymolchi, toiled, ystafell storio, golchdy, neu eu defnyddio ar gyfer mesuryddion nwy/trydan a'r prif gyflenwad dŵr. Rhaid cynnwys lloriau masnachol hefyd, ac eithrio isloriau a ddefnyddir yn gyfan gwbl at ddefnydd masnachol.
Beth sy'n cael ei ystyried yn Dŷ Amlfeddiannaeth?	Mae Tŷ Amlfeddiannaeth yn golygu Tŷ Amlbreswyliaeth, sy'n golygu adeilad neu ran o adeilad, megis fflat:

	• Sy'n cael ei breswyllo gan fwy nag un aelwyd a lle mae mwy nag un aelwyd yn rhannu - neu â diffyg amwynder, megis ystafell ymolchi, toiled neu gyfleusterau coginio. • Sy'n cael ei breswyllo gan fwy nag un aelwyd ac sy'n adeilad wedi'i drosi - ond nid yw'n fflatiau hunangynhwysol yn gyfan gwbl (p'un a yw'r rhai amwynderau yn cael eu rhannu neu mae diffyg ohonynt). • Sydd wedi ei drawsnewid yn fflatiau hunangynhwysol, ond nid yw'n cwrdd fel isafswm gofynion Rheoliadau Adeiladu 1991, ac mae o leiaf un rhan o dair o'r fflatiau yn cael eu preswyllo dan denantiaethau byr. • Sydd wedi'i feddiannu gan ddau neu fwy o aelwydydd: • Sydd wedi'i feddiannu fel eu prif / unig breswylfa. • Sydd wedi'i feddiannu fel lloches i bobl sy'n dianc rhag trais domestig. • Sydd wedi'i feddiannu gan fyfyrwyr yn ystod y tymor. • Sydd wedi'i feddiannu at ddibenion eraill a bennir gan y llywodraeth.
--	---